

Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Meithrinfa Ddydd Abacus

42 Heol Sgeti
Uplands
Abertawe
SA2 0LJ

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Adroddiad hwn yn seiliedig ar ymchwiliad i'r meib ei



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/02/2020



Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Graddau	Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu
Rhagorol	Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrodd Meithrinfa Ddydd Abacus ag Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Ebrill 2002. Mae'r feithrinfa yn gweithredu o adeilad mawr trillawr yn Uplands, Abertawe ac mae ar agor rhwng 7.30am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'n darparu gofal dydd llawn ar gyfer hyd at 43 o blant hyd at 12 oed. Heather Hughes yw'r unigolyn cyfrifol, a Juliette Harris ac Emma Howells yw'r personau â chyfrifoldeb.

Crynodeb

Thema	Gradd
Llesiant	Da
Gofal a Datblygiad	Da
Yr Amgylchedd	Da
Arwain a Rheoli	Da

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn cyflawni canlyniadau da o ran eu llesiant. Maent yn fodlon eu byd ac yn ddiogel mewn gwasanaeth sy'n darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu a chwarae iddynt. Mae'r staffyn cefnogi anghenion unigol y plant yn dda iawn ac maent yn gydwybodol wrth nodi eu hanghenion dysgu penodol. Maent yn effeithiol o ran gweithredu polisiau a gweithdrefnau'r gwasanaeth mewn perthynas ag iechyd a diogelwch y plant. Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn cynnwys amrywiaeth dda o adnoddau a chyfarpar i gefnogi datblygiad y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac wedi'i ddiogelu ar gyfer y plant. Mae systemau da ar waith i gefnogi'r gwaith o redeg y gwasanaeth yn ddidrafferth er mwyn gwella canlyniadau'r plant. Mae partneriaethau cadarn â'r rhieni, gweithwyr proffesiynol eraill ac asiantaethau.

2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r arweinwyr wedi bod wrthi'n gwneud llawer o welliannau, gan gynnwys y canlynol:

- Cyflwyno pypeddi er mwyn gwella gwybodaeth y staff o ran diogelu, rheoli ymddygiad a chymorth cyntaf;
- ennill nifer o wobrwyon;

- llwyddo i ennill grant er mwyn datblygu'r ardaloedd awyr agored;
- cyflwyno polisiau newydd;
- hwyluso sesiynau cymorth cyntaf ac ioga ar gyfer y plant;
- gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol leol ac ysgolion cyfun cyfrwng Cymraeg lleol.

3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â'r amgylchedd ac arwain a rheoli, ac mae'r rheini wedi'u cynnwys ar ddiwedd yr adroddiad.

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi

Crynodeb

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn ddiogel yn y gwasanaeth hwn. Mae gan y plant lais cryf iawn ac maent yn hyderus y caiff eu hanghenion eu hystyried. Ceir ethos cryf o wrando ar safbwyntiau a theimladau'r plant er mwyn hybu eu hunan-barch. Mae cyfleoedd da i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth.

Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn hapus pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad ac yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni. Maent yn setlo'n gyflym ac yn dechrau ar eu gweithgareddau'n ddiffwdan. Maent wedi meithrin cydberthnasau da â'r staff ac yn gwybod y gallant fynd atynt am gymorth, os bydd angen.

Mae'r plant yn siarad neu'n mynegi eu hunain yn dda am eu bod yn cael ymateb cyson. Mae iaith y cartref yn cael ei hyrwyddo. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt ac mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo'n bwrpasol o ganlyniad i hynny.

Mae llawer o'r plant yn gofyn am ragor o fwyd neu ddiod yn hyderus yn ystod amseroedd bwyd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi ac mae'r staff yn gweithredu arnynt. Cânt gyfleoedd cyffrous i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n effeithio arnynt. Mae'r plant hyn yn chwarae rhan weithredol yn trafod eu diddordebau a'u hoff bethau wrth gynllunio thema'r tymor ar y cyd â'r staff, ac maent yn mwynhau gwerthuso'r gweithgareddau.

Mae'r plant yn trin ei gilydd â pharch yn y gwasanaeth. Maent yn rhyngweithio'n effeithiol â'i gilydd ac yn barod iawn i gyflawni tasgau'n annibynnol am gyfnodau priodol o amser. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn dda iawn, ac mae'r plant yn cydweithio'n dda, yn dangos diddordeb ac yn cymryd rhan, wrth chwarae yn dawel gyda'i gilydd. Wrth aros am ginio, roedd y plant yn trafod eu hoff brydau bwyd a'r hyn y gallent fod yn ei gael am ginio, gydag un yn dweud '*I like pasta*' a'r llall yn dweud '*It's mashed potato*'. Mae'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn dangos cwртеisi, gan ddweud os gwelwch yn dda a diolch.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Er enghraifft, maent yn gweini eu hunain amser cinio ac yn helpu i osod y bwrdd cyn cinio. Adeg amser byrbryd, mae'r plant yn torri eu ffrwythau eu hunain ac yn arllwys eu dŵr eu hunain o'r peiriant dŵr. Mae'r plant yn golchi eu platiau ar ôl cael byrbryd.

Mae'r plant yn cael profiad o gwestiynau agored a chaeedig syml. Cânt eu cefnogi i ymestyn eu sgiliau meddwl a datrys problemau drwy weithgareddau a chwestiynau sy'n seiliedig ar ddeilliannau dysgu a gynlluniwyd.

Mae'r plant yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Er enghraifft, maent yn trafod lleuadau gwahanol, megis hanner lleuad ar gynnydd, lleuad ar gynnydd, gan chwilio am y lleuadau cyfatebol yn llawn brwdfrydedd. Mae'r plant yn enwi lliwiau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn hyderus. Mae'r plant yn dangos diddordeb gan eu bod yn mwynhau eu gweithgareddau. Er enghraifft, mae'r plant bach yn mwynhau eu sesiynau canu wrth iddynt wenu a churo dwylo wrth ddefnyddio siglwyr cartref. Mae'r plant yn mwynhau chwarae rôl ac roeddent yn gwneud synau rhuo wrth chwarae â deinosoriaid mewn ffordd llawn dychymyg. Yn y gornel gartref, roedd plentyn wrth ei fodd yn gwneud siocled poeth gyda hufen a malaws melys.

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi

2. Gofal a Datblygiad

Da

Crynodeb

Mae'r staff yn broffesiynol, yn llawn cymhelliad ac yn cefnogi anghenion dysgu'r plant, ynghyd â'u hiechyd a'u diogelwch. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu a goruchwyllo'r plant yn eu gofal.

Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn hybu iechyd a diogelwch y plant yn dda. Caiff pob plentyn ei annog i gymryd rhan mewncynlluniau amrywiol sy'n hybu ffyrdd iach o fyw yn effeithiol, er enghraifft, drwy frwsio eu dannedd a thrwy sesiynau ioga rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn cyflogi cogydd ac yn sicrhau bod y plant yn cael byrbrydau a phrydau iachus. Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu eu sgiliau corfforol gan ddefnyddio'r ardaloedd chwarae meddal a'r awyr agored. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi ennill gwobrwyon.

Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant yn dda. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol a dilys yn ystod y tair blynedd diwethaf ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn cael hyfforddiant mewnol, ynghyd â hyfforddiant ffurfiol, er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o weithdrefnau amddiffyn plant a chymorth cyntaf ymhellach. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y plant sydd ag alergeddau neu anghenion deietegol yn effeithiol. Ar y cyfan, roedd y staff yn hyrwyddo safonau hylendid da ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn cael byrbryd ac mae gorsaf sychu trwynau ar gael. Mae'r staff yn dilyn y weithdrefn newid cewynnau.

Mae trefniadau priodol ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer rheoli ymddygiad y plant. Mae'r staff yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol i reoli ymddygiad y plant. Mae gan y mwyafrif ohonynt ddealltwriaeth dda o sut a phryd i ymyrryd mewn gweithgareddau er mwyn datblygu ac ehangu profiadau chwarae a dysgu'r plant. Mae rhai aelodau o'r staff yn datblygu dealltwriaeth y plant drwy ddefnyddio cwestiynau penagored. Er enghraifft, *'What's different about the two moons?'*.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o faterion amrywiaeth ac maent yn hyrwyddo hawliau'r plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn ymwybodol o'r CCUHP, ac roedd olion llaw y plant (a oedd yn cynnwys nifer o'r hawliau) yn cael eu harddangos.

Mae'r staff yn arsylwi ar ddatblygiad y plant ac yn ei asesu, ac roedd cofnodion olrhain datblygiad proffil cyfnod sylfaen unigol ar gael. Mae'r staff yn paratoi gweithgareddau â phwyslais penodol ac yn gwerthuso'r gweithgareddau. Mae bron pob ymarferydd yn

cyfrannu at waith cynllunio sy'n dangos dilyniant sy'n cefnogi anghenion unigol pob oedran yn effeithiol. Maent hefyd yn rhoi gwybodaeth i rieni.

3. Yr Amgylchedd

Da

Crynodeb

Mae'r plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel ac ysgogol. Mae'r amgylchedd mewn cyflwr da ar y cyfan ac yn cynnig amrywiaeth o adnoddau i'r plant. Mae'r arweinwyr yn darparu ar gyfer y cyfnod sylfaen, er y gellid gwella'r ddarpariaeth barhaus ar gyfer y plant cyn ysgol.

Ein canfyddiadau

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd cartrefol a chroesawgar. Mae ganddynt fesurau/ polisiau ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch a lles y plant. Roedd gan yr arweinwyr weithdrefnau ar waith i gadw'r plant yn ddiogel. Roedd yr amgylchedd yn ddiogel; roedd system dda ar waith i reoli mynediad i'r safle. Roedd y staff yn gofyn am brawf adnabod gan ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd ac yn gofyn iddynt lofnodi'r llyfr ymwelwyr.

Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd gweithdrefnau addas ar waith. Roedd y staff yn cynnal ac yn cofnodi gwiriadau gweledol dyddiol o'r ystafelloedd gan sicrhau eu bod yn ddiogel. Roeddent yn anfon unrhyw broblemau a oedd yn codi ymlaen at yr unigolyn cyfrifol er mwyn iddi gymryd camau i fynd i'r afael â nhw. Roedd asesiadau risg ar gael ar gyfer pob rhan o'r adeilad. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd asesiad risg ar gyfer pob gweithgaredd. Mae'r blwch cymorth cyntaf, sydd wedi'i gyflenwi'n dda, yn cael ei archwilio'n rheolaidd. Mae ffynnon ddŵr ym mhob ardal er mwyn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar ddŵr yn hawdd yn ystod y dydd.

Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod amrywiaeth dda o deganau, deunyddiau a gweithgareddau ar gael, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hawdd cael gafael arnynt, ac wedi'u cynllunio i annog archwilio a dysgu. Roedd gan y babanod ddigon o le i grocian, archwilio a chwarae ag amrywiaeth o deganau a chyfarpar. Roedd yr ardal chwarae awyr agored wedi cael ei datblygu'n ddiweddar a bwriedir ei datblygu ymhellach. Mae'r plant yn cysgu ar fatresi. Mae'r ardal cyn ysgol yn diwallu anghenion y plant ac mae ganddi beth darpariaeth barhaus sy'n hygyrch i'r plant.

Mae plant o bob oedran yn defnyddio ardaloedd chwarae ysgogol sy'n briodol i'w hoedran, megis chwarae meddal, synhwyrdd, chwarae rôl, corneli darllen a'r ardal chwarae blêr. Ceir llawer o adnoddau naturiol. Mae ardal chwarae awyr agored sy'n cael ei chynnal a'i chadw ac sy'n cynnig rhai cyfleoedd chwarae i'r plant. Mae'r staff yn sicrhau bod yr ardal

chwarae yn yr awyr agored yn cael ei defnyddio mor aml â phosibl. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant yn yr awyr agored drwy gynnig amrywiaeth dda o adnoddau, sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb. Roedd yr ardal awyr agored yn cynnwys cegin fwd newydd, byrddau sialc a thŷ bach twt.

4. Arwain a Rheoli

Da

Crynodeb

Mae'r arweinwyr wedi datblygu systemau i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddiraffferth, ac mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol ar y cyfan. Mae system ar waith ar gyfer adolygu ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau da â'r rhieni.

Ein canfyddiadau

Mae'r arweinwyr yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol, llawn gwybodaeth sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Diweddarwyd y cynllun gweithredol yn ystod y cyfnod arolygu. Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel, maent yn mynd ati i annog eu tîmau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r arferion gofau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal ac yn ei hyrwyddo'n effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn adolygu eu polisiau yn rheolaidd ac yn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Maent yn ymgysylltu ag AGC yn dda ond nid oeddent wedi rhoi gwybod i ni am ddigwyddiadau hysbysadwy, megis newidiadau i'r staff.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddarau gwiriadau ynglŷn ag addasrwydd, fel sy'n ofynnol, ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r cofnodion gofynnol yn cael eu cadw'n gywir. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid oedd rhai dogfennau bob amser yn gyfredol. Er enghraifft, matrices DBS. Diweddarwyd y rhain yn ystod yr arolygiad. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg ac maent wedi cyflogi nifer o staff dwyieithog. Mae iaith gyntaf y plentyn yn flaenoriaeth with bennu gweithwyr allweddol ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn ysgrifennu'r dyddiaduron dysgu yn newis iaith y rhieni.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau hunanwerthuso. Maent yn ceisio barn y plant, eu rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a phartneriaid eraill â diddordeb. Yn dilyn adolygiad o ansawdd y gofal, mae'r unigolyn cyfrifol wedi llunio adroddiad sy'n ystyried y safbwyntiau a geisiwyd. Mae blwch awgrymiadau ar gyfer y rhieni yn y cyntedd.

Mae'r broses rheoli perfformiad yn un dda, ac mae'r arweinwyr yn annog y staff i ymgymryd ag amrywiaeth o hyfforddiant a chymhwysu'r hyn a ddysgir ganddynt. Cynhelir sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau da yn rheolaidd ac mae'r arweinwyr yn hybu llesiant y staff yn effeithiol drwy ddefnyddio'r wefan llesiant. Mae'r arweinwyr hefyd yn defnyddio bwrdd clod i ganmol y staff.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn dda. Maent yn rhoi gwybodaeth dda i rieni. Roedd y rhieni a ddychwelodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth. Mae gan yr arweinwyr gysylltiadau da ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

Adroddiad terfynol heb ei

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y gallai'r unigolyn cyfrifol wneud y canlynol:

- Datblygu'r ddarpariaeth barhaus ar gyfer plant cyn ysgol ymhellach;
- datblygu'r ardal awyr agored ymhellach;
- sicrhau ei bod yn rhoi gwybod i AGC am newidiadau i'r staff;
- sicrhau bod asesiadau risg ar gael ar gyfer pob gweithgaredd;
- sicrhau y caiff y matrices DBS ei ddiweddarau mewn modd amserol.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliodd dau arolygydd yr arolygiad hwn ar 20 Chwefror 2020 fel rhan o'r rhaglen o arolygiadau a drefnwyd.

Fel rhan o'r arolygiad gwnaethom y canlynol:

- ystyried gwybodaeth a ddelir, neu wybodaeth a dderbynnir, gan AGC;
- cynnal arolygiad gweledol o'r safle, dan do ac yn yr awyr agored;
- arsylwadau cyffredinol ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r plant a oedd yn y gwasanaeth y diwrnod hwnnw;
- cynnal arsylwadau gan ddefnyddio adnodd SOFI 2;
- siarad â'r person â chyfrifoldeb, yr unigolyn cyfrifol a'r staff;
- siarad â'r plant a oedd yn y gwasanaeth y diwrnod hwnnw;
- darparu holiaduron i'r rhieni a'r staff eu cwblhau os oeddent yn dymuno gwneud hynny;
- edrych ar y cofnodion roedd y gwasanaeth yn eu cadw;
- rhoi adborth ar 24 Chwefror 2020.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Unigolyn Cyfrifol	Heather Hughes
Person â chyfrifoldeb	Emma Howells Juliette Harris
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	43
Ystod oedran y plant	Oedran geni hyd at 12 oed
Oriau agor	7.30am-6.00pm
Iaith weithredol y gwasanaeth	Y ddwy
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	1 Awst 2017
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	20 Chwefror 2020
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.
Gwybodaeth Ychwanegol:	

Dyddiad Cyhoeddi 03/08/2020

Nid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored.

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi